**CYFARFOD Y PWYLLGOR DEDDFAU**

**COFNODION:**

**Dyddiad:** 23 Ebrill 2002

**Amser:** 9:30 a.m.

**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 3, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

**Presennol:**

| | |
|---|---|
| Mick Bates (Cadeirydd) | (Democrat Rhyddfrydol) |
| Lorraine Barrett | (Llafur) |
| Ron Davies | (Llafur) |
| Glyn Davies | (Ceidwadwr) |
| Delyth Evans | (Llafur) |
| John Griffiths | (Llafur) |
| Pauline Jarman | (Plaid Cymru) |
| Dr Dai Lloyd | (Plaid Cymru) |

**Ymwelwyr**

| | |
|---|---|
| Yr Arglwydd Skelmersdale | Cydbwyllgor Offerynnau Statudol Tŷ'r Cyffredin |
| Peter Pike AS | Cadeirydd y Pwyllgor Diwygio Dadreoli a Rheoliadol |
| Dai Havard AS | Pwyllgor Diwygio Dadreoli a Rheoliadol |
| Mark Lazorowicz | Pwyllgor Diwygio Dadreoli a Rheoliadol |
| Alan Preston | Cwnsler, Ymgynghorydd Cyfreithiol i'r Pwyllgor Diwygio Dadreoli a Rheoliadol a Chydbwyllgor Offerynnau Statudol Tŷ'r Cyffredin |

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| John Turnbull | Ymgynghorydd Cyfreithiol |
| D Huw Davies | Ymgynghorydd Cyfreithiol Cynorthwyol |
| Olga Lewis | Clerc y Pwyllgor |
| Julie Owen | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**: Dim

**Eitem 1: Cofnodion y cyfarfod diwethaf a materion sy'n codi: LEG-09-2002 (min)**

1.1 Cytunodd y Pwyllgor ar gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Ebrill 2002.

**Eitem 2: Adroddiad y Cadeirydd**

2.1 Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau o Gydbwyllgor Offerynnau Statudol Tŷ'r Cyffredin a'r Pwyllgor Diwygio Dadreoli a Rheoliadol a oedd yn ymweld â'r Cynulliad i edrych ar y gweithdrefnau a ddefnyddiwyd gan y Cynulliad i brosesu deddfwriaeth.

2.2 Atgoffodd y Cadeirydd yr aelodau y byddai seminar ar ddrafftio deddfwriaeth yn cael ei gynnal ar gyfer cyrff allanol a'r wasg ddydd Mercher, 1 Mai, am 12.45pm. Anogodd yr aelodau i fynychu.

2.3 Hysbysodd y Cadeirydd yr aelodau fod un gorchymyn ar ddeg i'w trafod ac y gwnaethpwyd hwy oll o dan y weithdrefn weithredol. Awgrymwyd y dylid anfon llythyr at y Pwyllgor Busnes yn gofyn pam fod cymaint o ddarnau o ddeddfwriaeth yn cael eu gwneud yn y dull hwn. Yna, byddai'r mater yn cael ei drafod mewn cyfarfod yn y dyfodol. **Gweithredu: Clerc.**

**Eitem 3: Gorchmynion y Cynulliad i'w Hystyried**

**LC456 – Gorchymyn Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl a Chymorth Trwsio Cartrefi (Uchafsymiau) (Diwygio) 2002**

3.1 Cyflwynodd Mr Davies yr adroddiad i'r Pwyllgor. Gwnaethpwyd y Gorchymyn o dan y Weithdrefn Weithredol.

3.2 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r Gorchymyn mewn unrhyw ffordd a nodwyd yn Rheol Sefydlog 11.5. Cafodd Ymgynghorwyr Cyfreithiol y Pwyllgor y cyfle i weld drafft cynnar a nodwyd nifer o bwyntiau a ystyriwyd yn y drafft terfynol.

3.3 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Gorchymyn fel LC456 (Adroddiad).

**LC457 – Gorchymyn Adnabod a Symud Defaid a Geifr (Mesurau Dros Dro) (Cymru) (Diwygio) 2002**

3.4 Cyflwynodd Mr Davies yr adroddiad i'r Pwyllgor. Gwnaethpwyd y Gorchymyn o dan y Weithdrefn Weithredol.

3.5 Ar ôl ystyried adroddiad yr Ymgynghorydd Cyfreithiol, daeth yr Aelodau i'r casgliad bod llawer o wallau drafftio yr oedd angen eu cofnodi o dan Reol Sefydlog 11.5:

- Erthygl 6(3), Dylid fod wedi newid "Ym mharagraff" i "Yn erthygl"; a
- Erthygl 8(5), paragraff ychwanegol (v) – dylai'r gair "to" ymddangos ar ôl "grazing land".

3.6 Bu'r materion hyn yn destun cyfeirio o dan Reol Sefydlog 11.4.

3.7 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Gorchymyn fel LC457 (Adroddiad).

**LC458 – Gorchymyn Llywodraeth Leol (Dadansoddiadau Awdurdodau Cyfan a Chynlluniau Gwella (Cymru) 2002**

3.8 Cyflwynodd Mr Davies yr adroddiad i'r Pwyllgor. Gwnaethpwyd y Gorchymyn o dan y Weithdrefn Weithredol.

3.9 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r Gorchymyn mewn unrhyw ffordd a nodwyd yn Rheol Sefydlog 11.5. Fodd bynnag, gwnaeth y Pwyllgor ddau sylw cyffredinol yr oedd o'r farn y dylid eu cofnodi yn ei adroddiad.

3.10 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Gorchymyn fel LC458 (Adroddiad).

**LC459 – Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2002**

3.11 Cyflwynodd Mr Turnbull yr adroddiad i'r Pwyllgor. Gwnaethpwyd y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Weithredol.

3.12 Ar ôl ystyried adroddiad yr Ymgynghorydd Cyfreithiol, daeth yr Aelodau i'r casgliad bod materion i'w codi o dan Reol Sefydlog 11.5.

- **Rheoliad 4(1) a (2)** – holwyd p'un a fwriadwyd i'r amgylchiadau y cyfeiriwyd atynt ym mharagraff (2) olygu mai dyna'r unig amgylchiadau lle na ystyriwyd fod person yn "addas" o dan baragraff (1). Nodwyd y geiriad mwy penodol yn rheoliad 16(2) -
  "(2) For the purpose of paragraph (1), a person is not suitable to look after relevant children unless..."

Os na fwriadwyd i reoliad 4(2) gwmpasu'r holl amgylchiadau lle na fyddai person o bosibl yn "addas" o dan baragraff (1), a oedd Gweinidog yn fodlon ar y ffaith bod rheoliad 4(1) yn darparu sylfaen ddigon cywir ar gyfer darpariaeth a fyddai'n datgan bod achosion o beidio â chydymffurfio yn drosedd o dan reoliad 24?

3.13 Felly, cytunodd y Pwyllgor i weithredu'r weithdrefn a nodir yn Rheol Sefydlog 11.4. Yn ôl y Rheol Sefydlog, cyn hysbysu'r Cynulliad y dylai roi sylw arbennig i unrhyw ddeddfwriaeth, dylai'r Cadeirydd, fel cam cyntaf, hysbysu'r Ysgrifennydd Cynulliad perthnasol o fwriad y Pwyllgor i wneud yr hysbysiad hwnnw a rhoi'r cyfle i'r Ysgrifennydd Cynulliad ymateb naill ai ar lafar neu'n ysgrifenedig. **Gweithredu: Ymgynghorydd Cyfreithiol/Clerc.**

**LC460 – Gorchymyn Deddf Safonau Gofal 2000 (Cychwyn Rhif 8 (Cymru) a Darpariaethau Trosiannol, Arbedion, Darpariaethau Canlyniadol a Darpariaethau Diwygio) 2002**

3.14 Cyflwynodd Mr Turnbull yr adroddiad i’r Pwyllgor. Gwnaethpwyd y Gorchymyn o dan y Weithdrefn Weithredol.

3.15 Ar ôl ystyried adroddiad yr Ymgynghorydd Cyfreithiol, cytunodd aelodau fod materion i’w codi o dan Reol Sefydlog 11.5. Roedd paragraffau 2(5) a (11), a 4(5)(b) a (11) o Atodlen 1 yn datgan na ddylai rhai darpariaethau o’r Atodlen fod â rhagfarn yn erbyn darpariaethau yn y Ddeddf Ddehongli a Deddf Llywodraeth Cymru. Hwyrach y byddai modd cyfiawnhau rhai o’r cyfeiriadau hyn o ran y Ddeddf Ddehongli, o ystyried y ffaith bod adrannau 16 a 23 o’r Ddeddf ond yn berthnasol “unless the contrary intention appears”. Fodd bynnag, tynnwyd sylw at y cyfeiriadau at adran 63 yn Neddf Llywodraeth Cymru oherwydd eu bod yn ymddangos fel pe baent yn datgan bod drafftio diffygiol yn amhriodol ac yn ddiangen o ystyried y ffaith y byddai deddfwriaeth eilradd o reidrwydd yn eilradd i ddeddfwriaeth sylfaenol.

3.17 Cyfeiriwyd at y materion hyn o dan Reol Sefydlog 11.4.

3.18 Roedd y Pwyllgor yn gwerthfawrogi’r ffaith, wrth ddefnyddio ‘cartref nyrsio iechyd meddwl’ yn erthygl 1, bod y cyfreithiwr drafftio yn defnyddio term a ddiffiniwyd yn y Statud galluogi, fodd bynnag, mynegodd bryder ynghylch priodolrwydd y term yn gyffredinol.

3.19 Atodir adroddiad y Pwyllgor i’r Cynulliad ar y Gorchymyn fel LC461 (Adroddiad).

**LC461 – Gorchymyn Deddf Safonau Gofal (Cychwyn Rhif 11) (Cymru) 2002**

3.20 Cyflwynodd Mr Turnbull yr adroddiad i’r Pwyllgor. Gwnaethpwyd y Gorchymyn o dan y Weithdrefn Weithredol.

3.21 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i’r Gorchymyn ar unrhyw sail a nodwyd yn Rheol Sefydlog 11.5. Fodd bynnag, gwnaeth y Pwyllgor ddau sylw cyffredinol yr oedd o’r farn y dylid eu cynnwys yn yr adroddiad.

3.22 Atodir adroddiad y Pwyllgor i’r Cynulliad ar y Gorchymyn fel LC461 (Adroddiad).

**LC462 – Rheoliadau Cofrestru Gofal Cymdeithasol a Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2002**

3.23 Cyflwynodd Mr Turnbull yr adroddiad i’r Pwyllgor. Gwnaethpwyd y Gorchymyn o dan y Weithdrefn Weithredol.

3.24 Ar ôl ystyried adroddiad yr Ymgynghorydd Cyfreithiol, cytunodd Aelodau fod materion i’w codi o dan Reol Sefydlog 11.5.

- **Rheoliad 2(1) – “perthynol”** – dylai “gŵr a gwraig” fod yn “gŵr neu wraig”.

- **Rheoliad 9(a)** -  roedd angen cynnwys manylion am “swyddfa briodol y Cynulliad Cenedlaethol” ar y dystysgrif. Yn y diffiniad o’r term hwnnw, fodd bynnag, cydnabuwyd hwyrach na fyddai yna swyddfa a nodwyd yn benodol, a byddai’r term felly yn cyfeirio at unrhyw swyddfa yn y Cynulliad. O’r safbwynt hwn, roedd yn aneglur sut y dylid cydymffurfio â pharagraff (a) rheoliad 9 pe na chafwyd swyddfa benodedig.
- **Rheoliad 9(f)** – Roedd hyn yn gofyn am dystysgrif gofrestru i gynnwys manylion am unrhyw amod yr oedd y broses gofrestru yn amodol iddo, gan restru agweddau penodol ar ofynion amodau i’w cynnwys. Goblygiad hyn oedd y byddai testun swyddogol yr amod yn cael ei amlinellu rhywle arall ac y byddai’n rhaid copïo manylion yr amod, yn cynnwys y materion y cyfeiriwyd yn arbennig atynt, ar y dystysgrif gofrestru.
- **Rheoliad 18(f)(g)** – argraffwyd paragraffau o fewn cromfachau sgwâr y tybir iddynt gael eu cadw’n anfwriadol o fersiwn ddrafft y rheoliadau.
- **Atodlen 2, paragraff 10(2)(a) a (c)** Roedd yn amlwg bod y cyfeiriadau at “adran 113(313)” yn anghywir.

3.25 Bu’r materion hyn yn destun cyfeirio o dan Reol Sefydlog 11.4.

**LC463: Rheoliadau Cofrestru Gofal Cymdeithasol a Gofal Iechyd Annibynnol (Ffioedd) (Cymru) 2002**

3.26 Cyflwynodd Mr Davies yr adroddiad i’r Pwyllgor. Gwnaethpwyd y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Weithredol.

3.27 Ar ôl ystyried adroddiad yr Ymgynghorydd Cyfreithiol, cytunodd yr Aelodau fod materion i’w codi o dan Reol Sefydlog 11.5.

- **Pwerau galluogi** – Roedd yn ymddangos fel pe bai’r cyfeiriad at adran 79F yn Neddf Safonau Gofal 2000 yn anghywir. Nid oedd adran o’r fath yn y Ddeddf. Roedd adran 79(1) o Ddeddf Safonau Gofal 2000 yn diwygio Deddf Plant 1989, drwy ychwanegu adran “79F” at ddeddf 1989.  Cyfeiriwyd yn gywir at yr adran 79F ar wahân fel adran o Ddeddf 1989. Yn ogystal, mewn perthynas ag adran 79F byddai wedi bod yn briodol nodi isadrannau (1) a (2) oherwydd ymddengys mai’r rhain oedd yr unig ddarpariaethau yn yr adran honno a oedd yn gweithredu fel pwerau galluogi mewn perthynas â’r rheoliadau presennol.
- **Rheoliad 3(1)** – O ystyried y ffaith bod paragraffau (6) a (7) yn gwneud darpariaeth benodol mewn perthynas â’r “ffi gofrestru” ystyriwyd y dylid bod wedi mynegi geiriad agoriadol paragraff (1) yn y fath fodd fel ei fod yn amodol i “baragraffau (2) i (7)” yn hytrach na “pharagraffau (2) i (5)”.
- **Rheoliad 7(2)** – roedd angen eglurhad ynglŷn â’r defnydd o’r term “cartref clinig”.
- **Rheoliad 7(5)(c**) – roedd angen eglurhad ynglŷn â’r defnydd o’r term “cartref”.

3.28 Felly, cytunodd y Pwyllgor i weithredu'r weithdrefn a nodir yn Rheol Sefydlog 11.4. Yn ôl y Rheol Sefydlog, cyn hysbysu'r Cynulliad y dylai roi sylw arbennig i unrhyw ddeddfwriaeth, dylai'r Cadeirydd, fel cam cyntaf, hysbysu'r Ysgrifennydd Cynulliad perthnasol o fwriad y Pwyllgor i wneud yr hysbysiad hwnnw a rhoi'r cyfle i'r Ysgrifennydd Cynulliad ymateb naill ai ar lafar neu'n ysgrifenedig. **Gweithredu: Ymgynghorydd Cyfreithiol/Clerc**

**LC464: Rheoliadau Cwotau Cynhyrchion Llaeth (cymru) 2002**

3.29 Cyflwynodd Mr Davies yr adroddiad i'r Pwyllgor. Gwnaethpwyd y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Weithredol.

3.30 Ar ôl ystyried adroddiad yr Ymgynghorydd Cyfreithiol, cytunodd yr Aelodau bod materion i'w codi o dan Reol Sefydlog 11.5.

- Roedd Rheoliad 31(2)(c) yn cyfeirio at ystadegau "misol" lle nad oedd yn ymddangos fel pe bai unrhyw beth yn rheoliad 28(2) nac yn Erthygl 3(2) o Reoliad y Cyngor a oedd yn gofyn am ystadegau misol. Rhoddwyd cadarnhad i'r Pwyllgor nad oedd rheoliad 28(2) nac Erthygl 3(2) yn gofyn am ystadegau misol, er y gellid gweithredu'r pŵer yn rheoliad 28(2) i'w gwneud yn ofynnol bod ystadegau yn cael eu cyflwyno'n fisol.
- Ymddengys y cafodd rheoliad 31(2)(c) ei ddrafftio drwy gyfeirio at weithdrefn a fabwysiadwyd (neu a fwriadwyd) lle y byddai'n angenrheidiol cyflwyno ystadegau yn fisol. Effaith hyn oedd y ffaith mai dim ond os byddai angen cyflwyno ystadegau yn fisol y byddai'r gosb yn rheoliad 31 yn berthnasol. Pe cymhwyswyd cyfnod gwahanol o dan reoliad 28(2) ni fyddai unrhyw gosb. O ganlyniad, cyfeiriwyd at hyn fel gwall drafftio i bob golwg yn sgîl y ffaith y cafodd rheoliad 31(2)(c) ei ddrafftio heb roi ystyriaeth ddigonol i natur wirioneddol y ddarpariaeth yn rheoliad 28(2).

3.31 Bu'r materion hyn yn destun cyfeirio o dan Reol Sefydlog 11.4.

**LC465: Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Buddsoddiadau a Gymeradwywyd) (Diwygio) (Cymru) 2002**

3.32 Cyflwynodd Mr Davies yr adroddiad i'r Pwyllgor. Gwnaethpwyd y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Weithredol.

3.33 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r Gorchymyn mewn unrhyw ffordd a nodwyd yn Rheol Sefydlog 11.5. Fodd bynnag, gwnaeth y Pwyllgor sylw cyffredinol yr oedd o'r farn y dylid ei gofnodi yn ei adroddiad.

3.34 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Gorchymyn fel LC465 (Adroddiad).

**LC466: Rheoliadau’r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Diwygio) (Cymru) 2002**

3.35 Cyflwynodd Mr Davies yr adroddiad i’r Pwyllgor. Gwnaethpwyd y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Weithredol.

3.36 Ar ôl ystyried adroddiad yr Ymgynghorydd Cyfreithiol, cytunodd yr Aelodau bod materion i’w codi o dan Reol Sefydlog 11.5.

- **Cyfeiriadau at “ardal”** – Gofynnwyd am eglurhad ynghylch ystyr bwriadedig “ardal” fel y’i defnyddiwyd yn y diwygiadau a wnaethpwyd gan y rheoliadau hyn. Holwyd a fwriadwyd i hyn gyfeirio at ran o ardal awdurdod iechyd neu ardal gyfan awdurdod iechyd. Nodwyd bod rheoliad 13(9) yn y prif reoliadau (fel y nodwyd gan reoliad 8(6) yn y rheoliadau presennol) yn darparu ar gyfer sefyllfa lle y byddai cleifion yn rhan o fwy nag un ardal Awdurdod Iechyd, ond nid oedd yn amlwg i ddechrau, hyd yn oed yn yr amgylchiadau hynny, a fwriadwyd i’r cyfeiriad gwmpasu dwy ardal yr awdurdod iechyd neu ai dim ond yr ardal drawsffiniol arbennig lle yr oedd y cleifion yn byw.
- **Rheoliad 19(3**) – Roedd y broses o osod paragraff (2A) yn rheoliad 18F, ar ôl paragraff (1) yn rhoi’r argraff bod paragraff (2) wedi cael ei ddiddymu. Fodd bynnag, dim ond yn Lloegr yr oedd paragraff (2) wedi’i ddiddymu. Felly dylid fod wedi gosod paragraff (2A) ar ôl paragraff (2).
- **Rheoliad 27(3)(b)** – dylid fod wedi newid “y Pwyllgor” i “y Pwyllgor hwnnw”.
- **Rheoliad 31** – Cyfeiriwyd at yr “Ysgrifennydd Gwladol”, fodd bynnag, deallwyd bod swyddogaethau Ysgrifennydd Gwladol o dan y prif reoliadau yn cael eu trosglwyddo i’r Cynulliad o dan Erthygl 3 Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999.

3.37 Felly, cytunodd y Pwyllgor i weithredu’r weithdrefn a nodir yn Rheol Sefydlog 11.4. Yn ôl y Rheol Sefydlog, cyn hysbysu’r Cynulliad y dylai roi sylw arbennig i unrhyw ddeddfwriaeth, dylai’r Cadeirydd, fel cam cyntaf, hysbysu’r Ysgrifennydd Cynulliad perthnasol o fwriad y Pwyllgor i wneud yr hysbysiad hwnnw a rhoi’r cyfle i’r Ysgrifennydd Cynulliad ymateb naill ai ar lafar neu’n ysgrifenedig. **Gweithredu: Ymgynghorydd Cyfreithiol/Clerc.**

**Eitem 4: Ymweliad y ddirprwyaeth o’r Cydbwyllgor ar Offerynnau Statudol a Phwyllgor Dadreoli a Rheoliadol Tŷ’r Cyffredin.**

4.1 Croesawodd y Cadeirydd yr ymwelwyr o’r **Cydbwyllgor ar Offerynnau Statudol (JCSI) a’r Pwyllgor Dadreoli a Rheoliadol (DRRC).** Croesawodd y Cadeirydd Mr Peter Pike AS, Cadeirydd y PDRh i roi amlinelliad byr o’u gwaith. Dilynwyd hyn gan gyflwyniad byr gan yr Arglwydd Skelmersdale yn amlinellu rôl Pwyllgor Pwerau Dirprwyedig a Diwygio Rheoliadol yr Arglwyddi.

4.2 Eglurodd Peter Pike i'r DRRC gael ei sefydlu gan Ddeddf Seneddol y Ceidwadwyr a wrthwynebwyd yn wreiddiol gan y Blaid Lafur oherwydd eu bod o'r farn na fyddai'r Pwyllgor yn craffu'n llwyr ar orchmynion. Fodd bynnag, bellach roedd pawb o'r farn ei bod yn system ddefnyddiol a bod y Senedd bellach yn craffu mwy ar ddeddfwriaeth oherwydd bod angen cynnal ymgynghoriad llawn cyn i unrhyw beth gael ei gyflwyno gerbron y DRRC. Yn wir, os oedd y Pwyllgor o'r farn bod corff pwysig wedi cael ei hepgor o'r broses ymgynghori, byddent yn cysylltu â hwy. Roedd angen i bob cynnig gael ei ystyried o fewn amserlen benodedig. Yn ogystal, mae'n rhaid i'w hadroddiad ddangos eu bod wedi ystyried pob cynnig yn erbyn meini prawf penodol, e.e. y tu hwnt i'r awdurdod a ph'un a oedd yn cydymffurfio â gofynion Ewropeaidd ai peidio. Yn dilyn hynny mae'n rhaid i'r Pwyllgor gyflwyno adroddiad i'r Tŷ yn datgan a ydynt yn argymell cymeradwyo'r cynnig neu a oes angen ei ddiwygio. Hyd yn hyn, ni basiwyd unrhyw gynnig heb fân ddiwygiad o leiaf. Pe bai barn y Pwyllgor wedi'i rhannu ar fater pan fyddai'r cynnig yn dychwelyd ar gyfer ei ail ddarlleniad byddai angen trafod y gorchymyn ar lawr y Tŷ (dim ond unwaith y digwyddodd hyn). Pe bai'r Pwyllgor yn argymell eu bod yn gwrthod y cynnig ar yr ail gam hwn byddai'r eitem yn cwympo. Roedd pwyllgor Tŷ'r Cyffredin yn gweithredu mewn dull tebyg. Roedd y gweithdrefnau a oedd ar waith yn golygu y gellid ymdrin â chynigion yn gyflymach nag y byddai'n bosibl pe bai'n rhaid eu cynnwys o fewn Mesur. Er enghraifft, yn ddiweddar, pasiwyd gorchymyn o fewn tri mis ac felly daeth yn weithredol ar ddechrau'r flwyddyn ariannol yn hytrach na gorfod aros am le addas o fewn Mesur.

4.3 Eglurodd yr Arglwydd Skelmersdale fod Pwyllgor Tŷ'r Cyffredin yn gwirio priodoldeb lefel y craffu a gynigiwyd ar gyfer pob pŵer i wneud Offerynnau Statudol o fewn pob Mesur ac roedd ei adroddiadau i Dŷ'r Arglwyddi yn tueddu i leihau anghydfodau posibl pan fyddai'r Mesur yn cael ei gyflwyno gerbron y Tŷ.

4.4 Cododd y Pwyllgor Deddfau nifer o bwyntiau.

- O ran pwy sy'n penderfynu ar briodoldeb cynnig ar gyfer y weithdrefn ddiwygio rheoliadol, eglurwyd mai cyfrifoldeb y pwyllgor DRRC oedd hyn, er y bydd y Gweinidog yn aml yn holi barn aelodau ymlaen llaw.
- Trafodwyd effaith datganoli ar waith y DRRC. Eglurwyd bod aelodau o'r rhanbarthau datganoledig yn aelodau o'r Pwyllgor a'u bod yn edrych ar ddeddfwriaeth a oedd yn effeithio ar eu hardaloedd hwy.

4.5 Diolchodd y Cadeirydd i'r ymwelwyr am eu cyfraniad.

**Eitem 5: Unrhyw Fusnes Arall a Dyddiad y Cyfarfod Nesaf**

5.1 Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 30 Ebrill 2002.